

City & Guilds Bricklaying Apprenticeship Level 2



Yn gwyno

Os ydych yn awyddus i ddysgu'r sgiliau i ddod yn osodwr brics, dyma'r cwrs i chi. Byddwch yn dysgu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch chi i roi dechrau arbennig i'ch gyrfa adeiladu, yn ennill Diploma NVQ Lefel 2 a fydd yn eich cymryd at y cam nesaf.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

- ... gweithio yn y diwydiant adeiladu
- ... gwella eich rhagolygon gyrfa a'ch potensial i ennill cyflog uwch
- ... eich galluogi i ennill cyflog wrth i chi ddysgu

Cynnwys y cwrs

Mae prentisiaethau'n cynnwys cymysgedd o ddysgu yn y gweithle a hyfforddiant coleg, sy'n rhoi'r cyfle i chi ymarfer ac i ymgorffori sgiliau newydd mewn amgylchfyd gwaith go iawn.



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cael eich asesu drwy waith cwrs, profion, aseiniadau, arsylwadau yn seiliedig ar eich gwaith a thystiolaeth yn seiliedig ar eich gwaith, ac wrth ichi wella drwy gydol y cwrs, byddwch yn ennill nifer o gymwysterau fel rhan o Fframwaith Prentisiaeth Lefel 2:

Diploma NVQ Lefel 2

Diploma Lefel 2

Cymhwyster Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol

Cymhwyster Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol

Wedi ichi gwblhau'r cwrs, rydym yn disgwyl ichi fod â'r gallu i ymgymryd â rôl gosod brics yn hyderus ac at lefel ansawdd y Diwydiant.

Gofynion Mynediadl fod yn gymwys am y cwrs, bydd angen i chi fod ag o leiaf 5 gradd D neu uwch mewn TGAU, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, ac mae'n rhaid ichi fod â chyflogaeth yn y diwydiant, gyda Chytundeb Cyflogaeth ac yn cael eich talu yn ôl yr isafswm cyflog prentisiaeth genedlaethol. Mae'n ofynnol hefyd bod eich cyflogwr yn bodloni archwiliad cefndir lechyd a Diogelwch.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd cwblhau'r cwrs yn eich galluogi i symud ymlaen at raglen Prentisiaeth Lefel 3. Mae ein Prentisiaeth Gosod Brics wedi ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

